OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3364

# Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005

## RHAN II

Sefydlu'r Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru, ei Gyngor Llywodraethu a'r Tribiwnlysoedd Prisio

### Cadeiryddion y Tribiwnlysoedd Prisio

**15.**—(1) Ar 3 Ionawr 2006, bydd pob cadeirydd ar hen Dribiwnlys yn cael ei benodi i swydd Cadeirydd Tribiwnlys Prisio dros yr ardal y gweithredai'r hen Dribiwnlys ynddo.

(2) Yn ddarostynedig i baragraff (1), pennir y nifer o aelodau Tribiwnlys Prisio sydd i'w penodi i swydd Cadeirydd, gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i Gymru.

(3) Bydd y Llywydd yn un o'r Cadeiryddion a rhaid i aelodau Tribiwnlys Prisio, yn unol â'r rheoliad hwn, benodi gweddill nifer y Cadeiryddion o fewn y cyfnod a bennir, drwy etholiad ymhlith eu haelodau.

(4) Ni chynhelir etholiad yn unol â'r rheoliad hwn cyn terfyn pythefnos gan ddechrau ar ddiwrnod dyroddi hysbysiad o'r etholiad yn unol â pharagraff (5) gan y Prif Weithredwr.

(5) Rhaid i'r hysbysiadau sy'n ofynnol o dan baragraff (4) gael eu cyflwyno i bob person sy'n aelod o'r Tribiwnlys Prisio a rhaid i'r hysbysiadau hynny gael eu cyflwyno ar y dyddiad y byddant yn cael eu cyhoeddi.

(6) Yr aelodau a benodir yn Gadeiryddion fydd y nifer priodol o aelodau sydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau o'u plaid.

(7) I bwrpas paragraff (6) bydd gan bob aelod nifer o bleidleisiau yn cyfateb i'r nifer priodol, ac ni chaniateir iddynt fwrw ond un bleidlais dros bob ymgeisydd, a lle, mewn perthynas ag unrhyw le gwag, bod y canlyniad yn gyfartal, bydd y person neu'r personau sydd i'w penodi o blith yr ymgeiswyr â nifer cyfartal o bleidleisiau yn cael eu penderfynu drwy fwrw coelbren.

(8) Ar derfyn y cyfnod a bennir, pan nad oes etholiad wedi digwydd yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn dilyn ymgynghori â'r Llywydd, benodi nifer priodol o aelodau i fod yn Gadeiryddion.

(9) Bydd Cadeirydd a benodir dan y rheoliad hwn yn dal y swydd hyd nes y bo pa un bynnag o'r canlynol yn digwydd gyntaf—

(a) terfyn y cyfnod interim y cyfeirir ato yn rheoliad 13(6);

(b) bod y Cadeirydd hwnnw'n peidio â bod yn aelod o'r Tribiwnlys Prisio;

(c) bod y Cadeirydd hwnnw'n ymddiswyddo drwy rybudd ysgrifenedig i'r Llywydd;

(ch) rhybudd terfynu dan baragraff (10) yn dod i rym.

(10) O ran y Llywydd—

(a) caiff, wedi iddo ymgynghori â phob un o Gadeiryddion eraill y Tribiwnlys Prisio, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Gadeirydd, derfynu swydd y Cadeirydd hwnnw; a

(b) rhaid iddo, os cyfarwyddir ef i wneud hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, roi hysbysiad ysgrifenedig i Gadeirydd, yn terfynu swydd y Cadeirydd hwnnw, ac a fydd yn dod i rym ar derfyn pa gyfnod bynnag y cyfarwyddir felly.

(11) Cyn rhoi cyfarwyddyd dan baragraff (10)(b) rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymgynghori â'r Llywydd.

(12) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cadeirydd hen Dribiwnlys" ("*chairman of an old Tribunal*") yw cadeirydd hen Dribiwnlys sydd yn ei swydd ar 14 Chwefror 2006;

ystyr "cyfnod a bennir" ("*the prescribed period*") yw tri mis gan ddechrau gyda lle gwag yn dod ymysg y nifer a nodwyd, neu le gwag o'r fath a fyddai'n dod oni bai am gymhwyso rheoliad 13(6), yn ôl y digwydd;

ystyr "nifer a bennir" ("*the determined number*") yw'r nifer a nodwyd gan Wasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru yn unol â pharagraff (2);

ystyr "nifer priodol" ("*the appropriate number*") yw'r nifer a bennir wedi tynnu'r nifer o bersonau sydd ar am y tro yn dal swydd Cadeirydd;

ystyr "Prif Weithredwr" ("*Chief Executive*") yw Prif Weithredwr interim a benodir o dan reoliad 18(1) neu Brif Weithredwr a benodir o dan reoliad 18(3).